

Astudiaeth ddichonoldeb o yswiriant amaethyddol yng Nghymru – Crynodeb annhechnegol

Cefndir

Dyma grynodeb annhechnegol ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb o'r opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ynghylch y posibilrwydd o ddarparu yswiriant amaethyddol i ffermwyr ar ôl digwyddiadau difrifol yng Nghymru.

Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- I ba raddau mae yswiriant cymorthdaledig i'w weld o fewn y gymuned yswiriant preifat;
- Digonoldeb y data a fyddai'n galluogi'r broses o gyfrifo premiymau yswiriant;
- I ba raddau y gallai llywodraethau ymyrryd i lenwi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth; a
- Digonoldeb darpariaeth ail-yswirio.

Wrth wneud y gwaith hwn, cynhaliwyd adolygiad eang o lenyddiaeth, ac ymchwiliwyd i risg, yswiriant, a digwyddiadau tywydd gwael iawn yng Nghymru yn 2013, yn ogystal ag edrych ar enghreifftiau o gymorth amaethyddol yn sgil tywydd gwael iawn mewn gwledydd eraill. Wedyn, cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau gyda thri grŵp o sefydliadau: Llywodraeth Cymru, darparwyr yswiriant, a rhanddeiliaid o'r diwydiant, gan gynnwys undebau ffermwyr.

Casgliadau Allweddol

Y System Bresennol yng Nghymru

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn argymhell gweithredu mewn modd holistaidd i reoli risgiau, gan ddechrau gyda darparu gwybodaeth a hyfforddiant.

- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud hynny drwy'r gwasanaeth presennol, Cyswllt Ffermio, sy'n cynnig cyngor, hyfforddiant a chyfleoedd i rannu gwybodaeth i ffermwyr.
- Yng Nghymru mae hyn wedi cael ei ategu drwy ddarparu cymorth ad hoc yn seiliedig ar sefyllfaoedd go iawn, fel y gwelwyd yn yr ymateb i dywydd difrifol 2013.
- Er bod polisïau yswiriant masnachol yn gofalu am risgiau cyffredin, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth fasnachol i ymdrin ag effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol ar lefel ffermydd unigol nac ar lefel genedlaethol.

Rhwysterau sy'n deillio o agweddau at yswirio ar gyfer risgiau tywydd eithafol

- Nid oedd tystiolaeth bod unrhyw rwystrau sy'n ymwneud ag agwedd cynhenid ffermwyr tuag at yswirio ar gyfer risgiau tywydd eithafol.
- Fodd bynnag roedd canfyddiad ymysg ffermwyr y byddai cost premiymau ar gyfer yswirio diadellau a phreiddiau mawr masnachol o dda byw yn eu hatal rhag manteisio ar yswiriant o'r fath.
- Hefyd mae rhywfaint o dystiolaeth nad yw ffermwyr yn amcangyfrif yn ddigonol ar gyfer effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol.

Y galw am yswiriant a'r cyflenwad ohono

- Canfu'r ymchwil nad oes fawr o alw ar hyn o bryd am yswiriant ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol yng Nghymru.
- Mae cwestiynau'n codi ynghylch y galw am yswiriant yn y dyfodol gan ddibynnu ar ddyfodol taliadau uniongyrchol y tu allan i fframwaith polisi'r UE.
- Nid oes unrhyw rwystrau technegol i gyflenwi yswiriant yn y maes hwn, er bod angen cadw mewn cof y byddai angen i breimiymau fod ar lefel y byddai ffermwyr yn fodlon ei thalu. Ar hyn o bryd, y premiwm yswiriant yw 10% o werth yr anifail ar gyfer yr anifeiliaid bridio pedigri mwyaf gwerthfawr.

Amodau dechrau ar gyfer yswiriant

- Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn nodi mai hwyluso amodau dechrau da (gwybodaeth, rheoleiddio, a hyfforddiant) ddylai fod yn brif swyddogaeth y llywodraeth o ran datblygu yswiriant masnachol.
- Nodwyd bod prinder data ar gyfer helpu i bennu lefelau premiymau mewn perthynas â cholli anifeiliaid.
- Er nad yw data'n angenrheidiol ar gyfer pennu lefelau premiwm, credir bod y prinder data yn gallu arwain at breimiymau uwch nag a fyddai wedi cael eu pennu fel arall.
- Felly, dylid ystyried sut y gellid casglu data a datblygu ffynonellau data mewn perthynas â cholli anifeiliaid.

Opsiynau ar gyfer darparu yswiriant

- Mae yna nifer opsiynau ar gyfer darparu yswiriant cymorthdaledig, gan gynnwys: Rhoi rhyddhad trethi ar gyfer premiymau, gwneud taliadau'n uniongyrchol i ffermwyr, a rhoi cymhorthdal yn uniongyrchol i'r diwydiant yswirio.
- Y farn oedd y byddai rhoi cymhorthdal yn uniongyrchol i'r diwydiant yswirio yn ffordd lai costus o ddarparu cymhorthdal, a gallai hwnnw felly fod yr opsiwn mwyaf deniadol i'r diwydiant yswirio. Serch hynny, nid yw'r opsiwn hwn yn galluogi'r diwydiant ffermio i gryfhau ei wytnwch cenedlaethol.
- Fodd bynnag ni ellir rhoi rhagor o fanylion ar lefel y cymhorthdal, a sut y gellid ei ddarparu, heb fod rhagor o ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, y diwydiant ffermio, a darparwyr yswiriant.